

GRŴP MONITRO BARCUD CYLCH GWAITH




Dyma amcanion Grŵp Monitro Barcud:

- Darparu strwythur sy'n atebol ac yn gynrychioliadol.
- Dylanwadu ar ddyfodol Barcud trwy fynd ati'n weithredol i gynnwys tenantiaid a'r gymuned leol ehangach ac ymgynghori â nhw.
- Galluogi tenantiaid i adolygu'r modd y caiff eiddo Barcud ei reoli a'i gynnal a'i gadw.
- Hyrwyddo gwaith y Grŵp Monitro mewn modd cadarnhaol yn yr ardal ehangach, yn enwedig ymysg grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth eraill.

Amcan 1: Strwythur sy'n atebol ac yn gynrychioliadol

1. Strwythur

Mae'r Grŵp Monitro yn gorff annibynnol, gwirfoddol, dielw a fydd yn rhan o strwythur a fydd yn golygu bod modd adrodd yn glir i denantiaid, lesddeiliaid, rhanddeiliaid a chymunedau yn ogystal â Barcud a'i bartneriaid fel y dangosir yn y diagram isod.



Bydd y Grŵp Monitro yn gweithredu ar y sail bod gan bob aelod ran i'w chwarae a'r hawl i gymryd rhan yn llawn yn ei drafodaethau a'i benderfyniadau. Fodd bynnag, bydd gofyn i aelodau fynegi eu barn yn gwrtais a heb dramgwyddo pobl eraill.

Os na fydd yr aelodau'n gwneud hynny pan gânt eu hatgoffa o'r ddyletswydd hon, byddant yn cael rhybudd ffurfiol gan y Cadeirydd a bydd hynny'n cael ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod. Bydd unrhyw achos pellach o fethu ag ymddwyn yn briodol yn golygu bod yr unigolyn dan sylw'n gorfod gadael y Grŵp Monitro.

2. Aelodaeth

Bydd y Grŵp Monitro yn cynnwys uchafswm o **26 o aelodau**, a fydd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, yr Ysgrifennydd, y Trysorydd a 22 o aelodau pwyllgor. Bydd dau o'r 22 o leoedd hynny'n cael eu cadw ar gyfer cynrychiolwyr lesddeiliaid.

Caiff aelodaeth y Grŵp ei hadolygu'n rhan o adolygiad blynyddol er mwyn sicrhau bod y Grŵp yn gynrychioliadol. **Ni all Cynghorydd Sir, Tref na Chymuned fod yn aelod o'r Grŵp gan fod hynny'n anghydnaws â'r rôl.** Yn rhan o'r adolygiad blynyddol, caiff archwiliad sgiliau ei gynnal yng nghyswllt yr aelodau gyda chymorth a chyngor y Swyddogion Cyfranogiad Tenantiaid, er mwyn nodi unrhyw gyfleoedd i hyfforddi pobl i gyflawni eu rolau a chyflawni eu potensial.

Bydd unrhyw aelod sy'n absennol o dri chyfarfod heb ymddiheuro ymlaen llaw yn gorfod gadael y Grŵp. Dim ond i un o Swyddogion y Grŵp y gellir cyflwyno ymddiheuriadau.

Aelodau o'r un teulu

Gall aelodau o'r un teulu fod yn aelodau o'r Grŵp. Mewn achosion lle mae mwy nag un aelod o'r un teulu neu'r un aelwyd yn aelodau o'r Grŵp, dim ond un ohonynt all fod yn un o swyddogion y Grŵp a/neu fod yn rhywun sydd ag awdurdod i lofnodi sieciau a/neu fod â hawliau pleidleisio o fewn y Grŵp.

Bydd gan bob aelod ac eithrio'r Cadeirydd bleidlais, gyda'r Cadeirydd yn cael pleidlais i benderfynu, os oes angen.

Cyfethol

Caiff swyddogion y Grŵp eu hethol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp, sydd i'w gynnal ym mis Tachwedd, er mwyn i'r penodiadau hynny gael eu cadarnhau gan denantiaid sy'n bresennol yn Fforwm Cyswllt y Tenantiaid a gynhelir ym mis Chwefror. Er mwyn bodloni gofynion y Grŵp, megis sicrhau bod cworwm yng nghyfarfodydd Panel Cyswllt y Tenantiaid, gall y swyddogion gyfethol aelodau i lenwi unrhyw leoedd gwag, yn unol â'r meini prawf isod:

- Os nad yw un neu fwy o'r swyddogion yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel swyddog am gyfnod sy'n fwy na mis, mae gan weddill y swyddogion yr hawl i gyfethol aelodau i'r Grŵp yn ôl eu disgresiwn.
- Ni all mwy na dau aelod cyfetholedig fod yn swyddogion ar unrhyw adeg.
- Bydd penodiad aelod sydd wedi'i gyfethol yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod

cyffredinol nesaf y Grŵp.

- Rhaid i'r aelod cyfetholedig ildio'i le pan fydd y swyddog absennol yn dychwelyd.

Caiff pobl neu sefydliadau eraill eu gwahodd yn ôl yr angen i fynychu cyfarfodydd y Grŵp Monitro a'u hannerch, a bydd gwahoddiadau o'r fath yn cael eu cytuno ymlaen llaw gan y Grŵp Monitro oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn codi, lle gall y Cadeirydd wneud penderfyniad gwybodus.

Cyfethol – Cynghorydd Annibynnol

- Gall y Grŵp gyfethol hyd at 2 gynghorydd annibynnol, os yw o'r farn bod angen gwneud hynny.
- Nid oes yn rhaid i'r unigolyn dan sylw fod yn un o denantiaid Barcud ond mae'n rhaid bod ganddo sgiliau a fydd yn cynorthwyo'r Grŵp i gyflawni ei rwymedigaethau.
- Ni all yr unigolyn fod yn Gynghorydd Sir, Tref na Chymuned.
- Rhaid i'r unigolyn lynu wrth drefn lywodraethu'r Grŵp a llofnodi'r cytundebau perthnasol.
- Rhaid i aelodaeth yr unigolyn o'r Grŵp gael ei chymeradwyo drwy broses bleidleisio'r Grŵp.
- Ni all yr unigolyn fod yn un o swyddogion y Grŵp ond gall fod yn gyd-lofnodwr.
- Rhaid i'r unigolyn ildio'i le yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf y Grŵp ond gall gael ei ailethol os yw'r Grŵp o'r farn bod angen gwneud hynny.
- Ni fydd gan yr unigolyn hawl i bleidleisio.
- Gall yr unigolyn hawlio costau teithio pan fydd yn mynychu cyfarfodydd misol y Grŵp a/neu gyfarfodydd a gymeradwywyd ymlaen llaw gan swyddogion y Grŵp.
- Rhaid i dreuliau eraill gael eu cymeradwyo gan swyddogion y Grŵp.

3. Cod ymddygiad a chyfrinachedd

Bydd aelodau'r Grŵp yn glynu wrth y cod ymddygiad a'r polisi cyfrinachedd.

4. Cyllid

Bydd o leiaf pedwar aelod, sef yn ddelfrydol y swyddogion a ddewiswyd gan y Grŵp, yn llofnodwyr y cyfrif banc. Ni ddylent fod yn aelodau o'r un aelwyd ac ni ddylent fod yn perthyn i'w gilydd. Bydd angen i o leiaf dau o'r pedwar llofnodwr a enwyd lofnodi pob sic. Bydd yn rhaid i Barcud gytuno ymlaen llaw ar unrhyw wariant sydd y tu hwnt i swyddogaethau pob dydd y Grŵp. Ni chaiff unrhyw daliad ei wneud ar gyfer gweithgarwch o'r fath heb ganiatâd y sefydliad. Rhaid cyflwyno "ffurflen hawlio costau teithio/treuliau" wedi'i llenwi a derbynebaw gyda phob hawliad, lle bo'n berthnasol. Rhaid cyflwyno pob hawliad yn unol â'r meini prawf a amlinellir ar y ffurflen "hawlio costau teithio/treuliau". At ddibenion cyfrifyddu, caiff yr aelodau i gyd eu hannog i dalu eu sieciau i mewn i'w cyfrif banc cyn gynted ag sy'n bosibl.

5. Amllder cyfarfodydd

Cynhelir o leiaf 6 chyfarfod o'r Grŵp Monitro bob blwyddyn. Caiff y cyfarfodydd eu trefnu gan y Grŵp Monitro gyda chymorth Swyddogion Cyfranogiad Tenantiaid Barcud. Fel rheol, caiff y cyfarfodydd eu cynnal ar ddydd Gwener olaf y mis rhwng **10.30am ac 1.00pm**, mewn lleoliad a gytunir gan y Grŵp. At hynny, bydd pedwar swyddog y Grŵp yn cyfarfod o leiaf 6 gwaith y flwyddyn â Thîm Arwain Barcud.

5.1 Cworwm

Er mwyn i'r Grŵp Monitro fod â chworwm rhaid bod 6 + 1 aelod yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r Grŵp Monitro, gydag o leiaf 2 swyddog yn bresennol, i gynnal busnes y cyfarfod. Os nad oes cworwm, caiff y cyfarfod ei ohirio.

6. Adroddiadau

Er mwyn sicrhau bod Barcud yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am fusnes y Grŵp Monitro, caiff y wybodaeth ganlynol ei rhannu:

- Adroddiadau i Dîm Arwain neu Reolwyr Perfformiad Barcud yng nghyfarfodydd misol Panel Cyswllt y Tenantiaid.

7. Cymorth gan Barcud

- Cynorthwyo a gwasanaethu'r Grŵp Monitro
- Cytuno ar fformiwla ar gyfer ariannu'r Grŵp Monitro
- Darparu hyfforddiant i holl aelodau'r Grŵp Monitro er mwyn sicrhau:
 - Eu bod yn deall rôl a phrosesau'r Grŵp Monitro
 - Eu bod yn dysgu am unrhyw bolisïau perthnasol a strwythurau gwneud penderfyniadau
 - Bod ganddynt sgiliau ar gyfer gweithio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol
- Talu treuliau rhesymol y mae aelodau'r Grŵp Monitro yn mynd iddynt wrth weithredu ar ran y Grŵp Monitro.

8. Cymorth i Fforwm Cyswllt y Tenantiaid

Darparu adroddiadau rheolaidd i Fforwm Cyswllt y Tenantiaid ynghylch cynnydd y Grŵp Monitro, a sicrhau bod materion sy'n peri pryder cyffredinol ac a godir gan denantiaid / preswylwyr yn cael eu cofnodi yng nghyfarfodydd y Grŵp Monitro.

Amcan 2: Dylanwadu ar ddyfodol Barcud trwy fynd ati'n weithredol i gynnwys tenantiaid ac ymgynghori â nhw

- Datblygu Strategaeth glir ar gyfer Ymgysylltu â'r Gymuned ar sail Strategaeth a Chynllun Gweithredu Barcud ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid
- Mynd ati'n weithredol i hyrwyddo grwpiau/sefydliadau cymunedol a grwpiau/sefydliadau cymorth eraill a gweithio gyda nhw, er mwyn mynd i'r afael â'r ystod o faterion a nodir yng nghymunedau Barcud.

Amcan 3: Monitro ac adolygu

Bydd y Grŵp Monitro yn monitro ac yn adolygu perfformiad Barcud, ac yn cael gwybodaeth am berfformiad er mwyn ei thrafod a chynnig sylwadau arni yng nghyswllt y canlynol:

- Perfformiad o ran gwaith atgyweirio o ddydd i ddydd
- Cynnydd o ran bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru
- Lefelau bodlonrwydd tenantiaid
- Perfformiad o ran rhent
- Lefelau bodlonrwydd â gwaith atgyweirio o ddydd i ddydd
- Gosod eiddo
- Rheoli eiddo gwag
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Materion eraill sy'n ymwneud â rheoli tai, wrth iddynt godi.


Dylid adolygu'r Cylch Gwaith hwn yn barhaus ac yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y nodau'n cael eu cyflawni ar gyfer tenantiaid, lesddeiliaid a chymunedau ac ar gyfer Barcud hefyd. Gwneir hynny drwy:

- Rannu adborth gan aelodau'r Grŵp Monitro â Fforwm Cyswllt y Tenantiaid
- Cynnal cyfarfod adolygu blynyddol o'r Grŵp Monitro wedyn, gyda chymorth y Swyddogion Cyfranogiad Tenantiaid, i adolygu cyflawniadau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Cyfle cyfartal

- Mae'r Grŵp Monitro o'r farn bod yn rhaid iddo weithio tuag at gyflawni'r nodau a'r amcanion a amlinellwyd yn Strategaeth a Chynllun Gweithredu Barcud ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid.
- Mae'r Grŵp Monitro wedi ymrwymo i wrthwynebu pob math o wahaniaethu, a bydd yn mynd ati'n weithredol i annog holl aelodau'r gymuned i gymryd rhan yn ei weithgareddau.
- Bydd y Grŵp Monitro yn gweithio i ddatblygu ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal.
- Bydd y Grŵp Monitro yn ceisio sicrhau bod unrhyw sefydliadau sy'n bartneriaid iddo hefyd yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.
- Bydd y Grŵp Monitro yn croesawu, yn cefnogi ac yn annog amrywiaeth ac yn rhoi gwerth arno.

Cafodd y Cylch Gwaith hwn ei gytno 28 Ionawr 2022

Llofnodwyd  Cadeirydd

(Enw mewn llythrennau bras) PAUL CLASBY